# Ysgol Gymraeg Cwmbrân – Grant Amddifadedd Disgyblion 2019/2020

Mae'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru bod yr ysgol yn eich gwneud chi'n ymwybodol o'r ffordd yr ydym yn defnyddio ein Grant Amddifadedd Disgyblion. Grant yw hwn sy'n cael ei dargedu at gefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Mae hwn yn cael ei ddefnyddio fel mesuriad o amddifadedd).

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol hon gofrestr ysgol, ac eithrio'r Feithrin, o 315 o ddisgyblion, ac mae 68 ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hwn yn cyfateb i 21.58% o boblogaeth yr ysgol ac yn cynhyrchu grant o £ 47,150 a £13,300 Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn amrywio dros y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol er mwyn cefnogi disgyblion sy'n wynebu heriau tlodi ac amddifadedd:

- Cefnogi rhaglenni i helpu disgyblion â'u llafaredd a'u datblygiad darllen
- Cefnogi rhaglenni i helpu disgyblion â'u datblygiad rhifedd
- Cefnogi rhaglenni i helpu disgyblion â'u llythrennedd emosiynol
- Rhoi cyfle i'r **holl** ddisgyblion ddysgu chwarae offeryn cerddorol yn ystod eu hamser yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân
- Sicrhau bod gan bob disgybl PYDd fynediad i glybiau allgyrsiol yn wythnosol
- Cydweithio â rhieni / gwarcheidwaid i'w cefnogi i ddatblygu sgiliau sylfaenol eu plentyn yn ystod boreau / nosweithiau agored rheolaidd
- Sefydlu grwpiau lles a chymorth ychwanegol i dargedu disgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYDd, disgyblion sy'n PDG a Gofalwyr Ifanc.